



# Paratoi am Brexit heb gytundeb – Hydref 2019

## Cefndir:

Ers y refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd yn 2016, polisi Llywodraeth Cymru fu gwrthwynebu gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb ac maent yn gyson wedi amlinellu'r effaith y credant y byddai sefyllfa 'dim cytundeb' yn ei chael ar yr economi a gwasanaethau cymdeithasol yn fwy eang. Mae gwefan Llywodraeth Cymru "[Paratoi Cymru am Brexit heb gytundeb](#)" yn amlinellu'r effaith ar draws nifer o sectorau.

Oherwydd ymestyn yr amserlen wreiddiol ar gyfer gadael o 29 Mawrth, mae'r DU yn awr i fod i adael yr UE ar 31 Hydref 2019. Fodd bynnag o bosibl gallai Deddf Undeb Ewropeaidd (Gadael) (Rhif 2) 2019 - Mesur Benn - a ddaeth yn gyfraith yn ddiweddar rwystro'r DU rhag gadael yr UE ar y dyddiad hwnnw heb gytundeb. Er fod hyn yn gwneud sefyllfa dim cytundeb yn llai tebygol, mae'r posibilrwydd yn dal i fod yno a dylid parhau i wneud paratodau.

Mae effaith dim cytundeb yn cyflwyno heriau mewn nifer o feysydd o fusnes cymdeithasau tai, a theimlid yr effaith ar draws amrywiaeth o ddiwydiannau yng Nghymru. Er ei bod yn annhebyg mai'r sector tai gaiff ei daro waethaf, mae Llywodraeth Cymru a chydweithwyr mewn llywodraeth leol yn awyddus i weithio gyda'r sector i ddeall yr effaith a sut y medrent liniaru heriau sy'n codi.

Cafodd Llywodraeth y DU ei gorfodi gan y Senedd yn ddiweddar i gyhoeddi dogfen '**Operation Yellowhammer**'. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu yr hyn y



mae Llywodraeth y DU yn eu rhagweld fel y sefyllfaoedd achos-gwaethaf pe byddai Brexit heb gytundeb.

Yn ddilynol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu dim cytundeb ei hun, yn cyflwyno'r camau gweithredu a gymerir i drin y prif risgiau i Gymru, ac ymateb i'r tybiaethau a gyflwynir yn Operation Yellowhammer. Mae manylion llawn y cynllun gweithredu ar gael [yma](#).

Cafodd y papur gwybodaeth dilynol ei ddiweddarau gan gyfeirio at ddogfen Yellowhammer Llywodraeth y DU a chynllun gweithredu Brexit dim cytundeb Llywodraeth Cymru.

## **1. Statws Preswlydd Sefydlog**

Mae'n bwysig nodi yn yr adran hon y sefyllfa wleidyddol ansefydlog sy'n newid o wythnos i wythnos. Felly, gall peth o'r wybodaeth ffeithiol yn y papur gwybodaeth hwn ddod yn annilys. Mae hyn yn cyfeirio'n neilltuol at y cyngor ar gymhwyster ar gyfer gwasanaethau tai a digartrefedd.

Mewn Brexit heb gytundeb *neu* Brexit gyda chytundeb, bydd y Swyddfa Gartref yn gweithredu cynllun statws preswlydd sefydlog yr UE sy'n ei gwneud yn ofynnol i fewnfudwyr o'r UE i'r DU wneud cais am statws preswlydd sefydlog. Mae hyn yn golygu fod ganddynt yr hawl i barhau i fyw a gweithio fel o'r blaen yn y DU. Pan gyhoeddwyd y cynllun preswlydd sefydlog yn gyntaf roedd ffi am wneud cais, ond cyhoeddwyd ers hynny y byddai hyn yn caei ei ddileu a'i ad-dalu ar gyfer rhai oedd eisoes wedi ei dalu, gan fod angen deddfwriaeth. Bydd hyn yn effeithio ar gyflogwyr ar draws cymdeithasau tai a thenantiaid mewn anheddau cymdeithasau tai. Mae'r Swyddfa Gartref wedi paratoi pecyn cymorth i gyflogwyr am Gynllun Statws Preswlydd Sefydlog yr Undeb Ewropeaidd sydd ar gael [yma](#). Mae hefyd becyn cymorth tebyg ar gyfer arweinwyr cymunedol a all fod yn ddefnyddiol wrth gynghori tenantiaid. Mae hynny ar gael [yma](#).

Mae'n bwysig iawn fod tenantiaid a gweithwyr o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn gwirio eu statws presennol yng nghyswllt cynllun statws preswlydd sefydlog yr UE cyn gynted ag sy'n bosibl.

I godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Statws Preswlydd Sefydlog, darparwyd cyllid ar gyfer cydlynnydd yng Nghymru yn ogystal â gwasanaeth cyfraith mewnffudo i roi cyngor cyfreithiol Llywodraeth Cymru mewn achosion cymhleth. Ymhellach, dyfarnwyd cyllid yn ddiweddar i Cyngor Ar Bopeth i ddarparu cyngor arbenigol a chyffredinol ym maes ceisiadau am Statws



Preswlydd Sefydlog, ac maent yn awyddus i weithio gyda chymdeithasau tai i gyrraedd y rhai sydd angen cymorth. Mae mwy o wybodaeth ar hyn ar gael [yma](#).

Ar hyn o bryd mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn cartrefu nifer o ddinasyddion yr UE ac mae'n debygol y bydd Brexit heb gytundeb yn effeithio ar gymhwyster ymgeiswyr newydd ar gyfer tai cymdeithasol. Adeg ysgrifennu'r papur gwybodaeth hwn, mae'n dal i fod yn anhysbys beth fydd y rheoliadau yn ei ddweud nes bydd papur gwyn/bil mewnfudo gan Lywodraeth y DU. Mae rheoliadau mewnfudo presennol y Swyddfa Gartref yn dweud fod yn rhaid i ymgeiswyr ddod o fewn un o'r grwpiau dilynol i fod yn gymwys i gael mynediad i dai cymdeithasol (yn cynnwys tai â chymorth a chymorth digartrefedd):

### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Pa rôl all cymdeithasau tai ei chwarae wrth helpu rhai nad ydynt efallai bellach yn gymwys am dai cymdeithasol?
- Sut fyddai unrhyw newidiadau i'r meini prawf ar gymhwyster yn effeithio ar systemau dyrannu cymdeithasau tai?
- Beth fydd y goblygiadau ar gyfer staff cymdeithasau tai a sut fydd cymdeithasau tai yn trin statws preswlydd sefydlog ar gyfer eu cyflogion sy'n ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd?

## **2. Llafur a Gweithlu**

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, bydd symudiad rhydd pobl rhwng yr UE a'r DU yn dod i ben. Cadarnhawyd bod y Swyddfa Gartref yn bwriadu caniatáu i ddinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yn y DU wneud cais am statws preswlydd sefydlog, gan olygu fod ganddynt yr un hawliau â dinasyddion.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi dweud mai ei sefyllfa ddiodyn fydd galluogi pobl i aros yn hytrach na gwrthod ceisiadau am statws preswlydd sefydlog. Fodd bynnag, er y sicrwydd hwn, gall cyfyngiadau'r broses gais ac ansicrwydd am hyn yn y dyfodol olygu bod preswylwyr yn dewis peidio aros yn y DU, ac mae eisoes beth tystiolaeth anecdotaidd fod rhai pobl mewn swyddi cyflog isel eisoes wedi dychwelyd i wledydd eraill yr UE. Gall y cwmp yng ngwerth sterling hefyd ddylanwadu ar hyn gan wneud y DU yn lle llai deniadol i ddinasyddion yr UE weithio ynddo. Mae hefyd dystiolaeth



anecdotaidd sy'n awgrymu bod pobl ifanc yn edrych am fwy o gyfleoedd i weithio dramor (y tu allan i'r UE) gan nad ydynt mwyach yn gweld y DU fel man sy'n cynnig cyfleoedd. Gallai hyn waethygu unrhyw brinder staff yng ngweithlu'r DU a fedrai eisoes fod dan bwysau heb weithwyr o'r UE.

O fewn Cymru, mae gan mewnfudwyr o'r UE gyfradd cyflogaeth gyffredinol uwch (79%) na'r boblogaeth gyffredinol o oedran gwaith (71%) ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio mewn swyddi megis gweinyddiaeth, gofal cymdeithasol neu grefftiau medrus (e.e. mewn adeiladu), sy'n golygu fod sefyllfa dim cytundeb yn debygol o effeithio ar staff cymdeithasau tai. Mewn gostyngiad mewn mewnfudo yn debygol o effeithio ar y gweithlu mewn dau faes allweddol ar gyfer cymdeithasau tai.

- **Adeiladu:**

Mae gan y gweithlu adeiladu yng Nghymru eisoes nifer sylweddol o swyddi gwag heb eu llenwi neu anodd eu llenwi, sy'n ganlyniad prinder sgiliau a gweithlu sy'n heneiddio. Mae'r bylchau yn y gweithlu yn debygol o gael eu gwaethygu gan effaith Brexit heb gytundeb oherwydd nifer sylweddol y dinasyddion o'r UE sy'n rhan o'r gweithlu adeiladu (tua 8% yng Nghymru, gyda chyfrannau uwch yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r Gogledd Ddwyrain, gyda dros hanner gweithwyr heb fod o'r DU yn dod o wledydd yr UE).

Fodd bynnag, mae'n werth nodi fod gan Gymru gyfran gyffredinol is o weithwyr adeiladu o'r UE na rhannau eraill o'r DU, sydd oherwydd natur nodweddiadol symudol gweithwyr adeiladu gan olygu fod risg sylweddol o golli cyfrannau sylweddol o'r gweithlu i swyddi sy'n talu'n well yn Ne Ddwyrain Lloegr fel a welwyd mewn sefyllfaoedd blaenorol o ddirywiad economaidd. Hefyd mae nifer o brosiectau seilwaith mawr yng Nghymru, yn cynnwys Wylfa Newydd, Morlyn Llanw Bae Abertawe a ffordd linaru'r M4 sydd wedi wynebu ansicrwydd sylweddol mewn blynyddoedd diweddar ac yn achosi heriau cynllunio gweithlu i'r rhai sy'n ymwneud ag adeiladu.

- **Gweithwyr Gofal a Chymorth Cymdeithasol:**

Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiwydiant arall lle disgwylir i Brexit heb gytundeb effeithio ar gymdeithasau tai. Ym mis Mawrth 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymchwil ar oblygiadau Brexit ar y gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant. Amcangyfrifir fod 6.4% (uchafswm o 3,730) o staff o fewn gosodiadau gofal cymdeithasol cofrestredig a 4.5% (uchafswm o 1,100) staff o fewn gwasanaethau gofal plant cofrestredig yng Nghymru yn ddinasyddion o'r UE tu allan i'r DU.



Er fod hyn yn debygol o fod ar lefel is nag mewn rhai rhannau o'r DU, oherwydd lefelau cyffredinol is mewnfudo o'r UE yng Nghymru, mae'r sectorau hyn eisoes yn wynebu heriau syleddol mewn recriwtio a sgiliau a gaiff eu gwaethygu gan unrhyw gyfyngiadau ar fewnfudo. Dengys yr ymchwil i 58% o ymatebwyr gofal cymdeithasol a 47% o ymatebwyr gofal plant fynegi anawsterau recriwtio o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Ar hyn o bryd mae cyfanswm o tua 43,000 o weithwyr o'r UE yng Nghymru sy'n llai na 2% o'r tua 2.3m yn y DU gyfan. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r diwydiant adeiladu, mae dibyniaeth ar weithwyr mewnfudol o'r UE yn debyg o fod yn is yng Nghymru nag mewn rhai rhannau o Loegr oherwydd lefelau cyffredinol is o fewnfudo o'r UE i Gymru sy'n golygu fod llawer o'r un materion yn berthnasol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw Cymru yn orddibynnol ar weithwyr o'r UE i gynnal gwasanaethau gofal a chymorth ond mae cyfle y gall gweithwyr o Brydain a hefyd yr UE sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd gael eu denu i fannau eraill oherwydd gwell cyflogau a chyfleoedd eraill a all fod ar gael yng ngweddill y DU os ydynt dan bwysau sylweddol oherwydd diffyg gweithwyr o'r UE.

Mewn sector sydd eisoes yn fregus yn ariannol, yn ôl dogfen Yellowhammer bydd unrhyw gynnydd mewn chwyddiant yn cynyddu costau staff a chyflenwi i ofal cymdeithasol oedolion. Gall hyn arwain at fethiant darparwyr mewn unrhyw beth rhwng 2 i 6 mis oherwydd cynnydd mewn costau staffio a chyflenwi.

Gallai effaith hyn gael ei weld mewn cymdeithasau tai yn ei chael yn anodd cynnal y lefelau staffio sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau ychwanegol sydd mor hanfodol i denantiaid, yn arbennig yr henoed neu'r bregus. Os oes cynnydd sylweddol mewn costau staffio neu gyflenwi, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer cefnogaeth ar draws y system ac yn gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr gofal cymdeithasol i asesu bregusrwydd posibl.

### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Beth fyddai effaith dod â symudiad rhydd llafur i ben ar unwaith ar gontractwyr ac is-gontractwyr yn y diwydiannau uchod?
- Sut all cymdeithasau tai a phartneriaid weithio i ddenu a chadw sgiliau i'r diwydiannau uchod i gefnogi ein huchelgais i gyflawni?
- A oes cyfleoedd digonol ar gyfer hyfforddiant a dilyniant i weithwyr preswyl yn y DU i lenwi'r bylchau sgiliau a ddynodwyd?



- A fedrai buddsoddiad mewn mathau eraill o ddarpariaeth gwasanaeth (e.e. mwy o dechnoleg mewn gofal cymdeithasol, dulliau modern o adeiladu) liniaru heriau gweithlu yn y tymor byr neu'r tymor canol?
- Sut fydd Brexit (a pholisïau cysylltiedig) yn cynyddu neu ostwng costau llafur?
- Pa sgiliau neu adnoddau ychwanegol fyddai'ch sefydliad eu hangen i barhau i ddarparu ar yr un lefel ar ôl Brexit Heb Gytundeb?

### **3. Masnach**

Pe byddai'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb, y sefyllfa ddiodyn yw y byddai masnach o fewn yr UE yn dychwelyd i drefniant Sefydliad Masnach y Byd (WTO), gan olygu y byddai tariffau a ffioedd yn eu lle ar unwaith pan gaiff nwyddau eu mewnfario o'r UE i'r DU yn hytrach na'r fasnach sydd sydd yn ei le ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar wedi awgrymu fod Llywodraeth y DU yn ystyried gostwng ei thariffau i sero mewn Brexit Heb Gytundeb. Dan reolau'r WTO, byddai hyn yn golygu y byddai tariff sero ar bob masnach (nid dim ond gyda gwledydd yr UE), ac mae pryderon y byddai hyn yn achosi niwed sylweddol i farchnadoedd y DU.

Mae Yellowhammer yn rhoi manylion mesurau rheoli gorfodol yr UE a osodir gan Ffrainc ar nwyddau o'r DU ar Ddiwrnod 1 Dim Cytundeb ar draws llwybr y Sianel. Gallai cyfradd llif cerbydau HGV ostwng i 40-60% o'r lefelau presennol oherwydd diffyg parodrwydd masnachwyr ac anallu porthladdoedd Ffrengig i 'ddal' nwyddau ym mhorthladdoedd Ffrainc. Disgwylid gwelliant i 50-70% ar ôl 3 mis. Sefyllfa achos gwaethaf yw oedi o 1½-2½ diwrnod mewn cerbydau HGV yn croesi i Ewrop.

- **Adeiladu:**

Mae diwydiant adeiladu Cymru wedi bod yn ddibynnol ar fewnforion o'r UE am amser maith, yn neilltuol frics o Wlad Belg a Denmarc, coed o Sweden ac Estonia, gwydr o'r Eidal a deunyddiau ar gyfer tai pre-ffab o'r Almaen a'r Iseldiroedd. O'r mewnforion adeiladu i'r DU, daw 59% o tu fewn i'r UE, felly mae unrhyw newid yn y berthynas fasnachu yn debygol o achosi heriau



sylweddol i gadwyni cyflenwi. Rydym eisoes wedi clywed am gwmnïau adeiladu unigol yn cynyddu cost deunyddiau.

#### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Pa mor wydn yw cyflenwyr a chontractwyr i unrhyw oedi neu ymyrraeth yn y cyflenwad o ddeunyddiau adeiladu?
- Pa effaith fyddai cynnydd yng nghostau deunyddiau adeiladu yn ei gael ar uchelgais datblygu yn a) y 12 mis nesaf b) y 3 blynedd nesaf
- A oes unrhyw gyfleoedd ar gyfer dulliau modern o adeiladu neu annog y defnydd o gadwyni cyflenwi cynhenid?

#### **4. Y Farchnad Tai**

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae tystiolaeth fod y farchnad tai wedi arafu mewn misoedd diweddar, gydag ansicrwydd economaidd a Brexit yn cael eu priodoli fel achosion tebygol. Dangosodd data RICS fod hyd cyfartalog gwerthiant yn y DU wedi cyrraedd pedwar mis - yr hiraf ers 2016 - tra rhagwelant y bydd nifer y gwerthiannau wedi gostwng ym mhob un o dri mis cyntaf 2019. Mae tybiaethau Banc Lloegr am Brexit blêr dim cytundeb yn cynnwys gostyngiad o 35% mewn prisiau tai dros gyfnod o dair blynedd.

Pe byddai prisiau tai yn gostwng gan draean neu fwy, mae peth tystiolaeth i awgrymu y byddai angen cyfradd grant o leiaf 50% o gostau adeiladu i sicrhau hyfywedd. Er bod cyfraddau grant presennol ar gyfer tai rhent cymdeithasol yng Nghymru yn 58%, byddai nifer o ffactorau eraill yn cynnwys costau ac argaeledd cyllid yn effeithio ar hyfywedd ac uchelgais datblygiadau. Ymhellach, byddai argaeledd cyffredinol grant ac unrhyw bwysau dilynol ar gyllid cyhoeddus fel canlyniad i ddirywiad economaidd yn cael llawer o sylw gan fyrddau cymdeithasau tai wrth ystyried datblygu.

Mae cymdeithasau tai Lloegr wedi sôn am gynnydd yn nifer y digwyddiadau o ddatblygwyr preifat yn gwerthu cartrefi iddynt ar ddisgownt fel canlyniad i ddirywiad yn y farchnad, gyda rhai yn sôn am ddisgownt o hyd at 15%, ac mae'r Sovereign Housing Group wedi nodi wyth achos o'r math hwn. Daw hyn gydag adroddiadau fod L&Q, cymdeithas tai fwyaf Llundain, wedi gostwng ei hamcanestyniadau gwarged gan fwy na 50% (£170m) fel canlyniad i ddirywiad yn y farchnad a chynnydd mewn costau.



Er fod gwerthu eiddo yn sylweddol llai cyffredin ymhlith cymdeithasau tai yng Nghymru, mae nifer o gymdeithasau yn darparu amrywiaeth o opsiynau perchnogaeth tai y byddai unrhyw newidiadau i'r farchnad yn effeithio arnynt. Mae amodau'r farchnad ehangach hefyd yn debygol o effeithio ar hyder contractwyr a buddsoddwyr i fuddsoddi mewn cartrefi.

### **Cwestiynau i'w hystyried**

- Sut fyddai gostyngiad sylweddol mewn prisiau tai yn effeithio ar a) eich uchelgais cyffredinol ar gyfer datblygu, b) eich gwytnwch ariannol a c) eich awydd i ddatblygu cartrefi ar werth?
- Pa rôl y gallai cymdeithasau tai ei chwarae wrth gefnogi adeiladwyr tai preifat pe byddai Brexit heb gytundeb yn arwain at ddirywiad sylweddol yn y farchnad? Yn neilltuol, beth fedrai fod yr effaith ar adeiladwyr llai?

### **5. Cyllid ar gyfer Cymdeithasau Tai**

Mae lefel dyled bresennol cymdeithasau tai Cymru yn £2.7bn, gyda pherthynas gynhyrchiol barhaus rhwng cymdeithasau tai a nifer o fenthycwyr yn cynnwys banciau a buddsoddwyr sefydliadol.

Fodd bynnag, mae S & P - un o'r prif asiantaethau graddio credyd - wedi dweud y byddai'r rhan fwyaf o gymdeithasau y mae'r asiantaethau wedi eu graddio yn gostwng gan un pwynt yn dilyn Brexit, gyda'r rhai sy'n fwy dibynnol ar incwm o werthiant ar y farchnad yn debygol o gael eu gostwng gan bwynt pellach. Er nad yw mwyafrif cymdeithasau tai wedi gofyn am raddiad gan asiantaethau graddio allanol oherwydd eu maint, mae hyn yn arwydd o'r pryder sydd yn y sector ariannol am effaith Brexit ar yr amgylchedd cyllid.

Mae cynllunio senario dim cytundeb Banc Lloegr ar gyfer Brexit ymyrrol a Brexit anrhefnus yn rhagweld y bydd chwyddiant yn cyrraedd 6.25% a chyfraddau llog y sector (gyda cynnydd mewn gorsymiau banc) yn cyrraedd 9% wedi'i gyfuno gyda gostyngiad o hyd at 35% ym mhrisiau tai.

Mae'r ddwy senario yn debyg o weld pwyslais cynyddol gan y rheoleiddiwr ar yr angen am brofi straen a cynlluniau wrth gefn.

Ymhellach i hyn, mae gan gymdeithasau tai Cymru fynediad ar hyn o bryd i nifer o gronfeydd presennol sydd ar gael gan yr Undeb Ewropeaidd

- **Banc Buddsoddi Ewrop (EIB)**





Yn y degawd cyn y refferendwm roedd yr EIB wedi chwistrellu dros £1bn i Gymru ar draws amrywiaeth o sectorau yn cynnwys tai cymdeithasol. Mae benthyciadau gan yr EIB yn cynnig cyfraddau llog sylweddol is na llawer o fanciau masnachol, gan olygu fod gan gymdeithasau tai yn y pen draw fwy o gyllid ar gael i'w buddsoddi mewn adeiladu a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau maith, methodd trafodaethau i sicrhau cyllid sylweddol i gymdeithasau tai Cymru ar ôl sbarduno Erthygl 50.

Canfu is-bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Ariannol yr Undeb Ewropeaidd pe byddai dim cytundeb, y byddai unrhyw "freintiau ac iminiwneiddio" presennol sy'n weithredol i fenthycia EIB yn parhau i weithredu i fenthyciadau a wnaed cyn diwedd y cyfnod trosglwyddo, ac mewn sefyllfa dim cytundeb, y caiff hawliau gweithredu'r EIB eu cadw drwy Ddeddf Gadael yr Undeb Ewropeaidd 2018, yn golygu y dylai unrhyw gontractau prosiect presennol gael eu diogelu ac nad yw'n rhaid i sefydliadau gymryd unrhyw gamau gweithredu.

- **Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd:**

Yn dilyn Brexit heb gytundeb, ni fydd gan Gymru mwyach fynediad i Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol Ewropeaidd yn ogystal â chyllid arall yn cynnwys popeth o ddatblygu i wasanaethau hyfforddiant. Bu sicrwydd y caiff y contractau presennol eu hanrhydeddu ac mae Trysorlys y Deyrnas Unedig wedi rhoi gwarant ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd rhwng mis Rhagfyr 2020. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar Gronfa Rhannu Ffyniant Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd i ddisodli cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

- **Cymorth Gwladol:**

Mae Cymorth Gwladol yn fantais a roddir gan awdurdod cyhoeddus i sefydliadau sydd â'r potensial i wro cystadleuaeth a masnach o fewn yr UE. Gellir gweithredu'r rheolau i unrhyw gorff sy'n ymwneud â gweithgareddau masnachol, yn cynnwys sefydliadau dim-er-elw (yn cynnwys cymdeithasau tai) ac maent yn gweithio i annog twf. Yn flaenorol cafodd gweithredu cymorth gwladol o fewn y DU ei gyfyngu gan reolau cymorth gwladol yr UE na fyddant yn weithredol ar ôl i'r DU adael yr UE, gan olygu mai'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) fydd yn llwyr gyfrifol, yn hytrach na'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae dau bosibilrwydd am gymorth gwladol parthed Brexit dim cytundeb:

1) Ni fydd yn rhaid i'r CMA roi cymeradwyaeth eto i unrhyw gymorth gwladol a



gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd cyn 29 Mawrth 2019. Bydd hyn yn wir am gymorth a gafodd ei gymeradwyo neu ei wrthod.

2) Bydd angen ail-hysbysu'r CMA ar gyfer cymeradwyaeth i gymorth gwladol yr hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd amdano, ond nad oedd wedi gwneud penderfyniad arno fel ar 29 Mawrth 2019, .

### **Mwy o wybodaeth**

Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £50m mewn tai cymdeithasol oherwydd y bygythiad posibl am fwy o doriadau sylweddol i wariant cyhoeddus wedi ei ddatganoli. Yn y dyfodol agos bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud dyraniadau cyfalaf pellach yn y flwyddyn i gefnogi economi Cymru.

### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Sut fyddai unrhyw newidiadau yn asesiad yr asiantaethau graddio credyd o gymdeithasau tai yn effeithio cost a mynediad i fenthyca yn fwy eang?
- Pa effaith fyddai cyfraddau llog sylweddol uwch yn ei gael ar eich cynllun busnes?
- Sut fyddai unrhyw newidiadau sylweddol mewn mynediad i forgeisiau yn effeithio ar y farchnad ar gyfer cynnyrch perchnogaeth cartref a ddarperir gan eich cymdeithas?
- A oes gan eich sefydliad unrhyw gyllid EIB ar hyn o bryd? Ydych chi wedi trafod effaith Brexit heb gytundeb gyda'r EIB yng nghyswllt y cyllid hwn?

## **6. Cyllid ar gyfer Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn darparu £1.2 miliwn ychwanegol o gyllid i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i barhau â'u rhaglenni Brexit. Bydd hyn yn golygu y bydd hyd at £45,000 ar gael i bob awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal â £200,000 ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r arian hwn yn sicrhau y gall pob awdurdod lleol wneud y gwaith paratoi ar gyfer Brexit, yn cynnwys cynllunio ar gyfer sefyllfa dim cytundeb.



Yn ogystal â chyllid cyn Brexit, ar 4 Mawrth cyhoeddodd James Brokenshire AS, Ysgrifennydd Gwladol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, £1.6bn ar gyfer cronfa "Trefi Cryfach" i greu swyddi newydd, helpu i hyfforddi pobl leol a hybu twf yn nhrefi Lloegr ar ôl i'r DU adael yr UE. Ers hynny mae wedi cadarnhau y bydd cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer yr arian hwn, ond nid oes cadarnhad am yr amserlen na'r swm y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn.

Bwriedir i gyllid Llywodraeth y DU ddatblygu'r trefi y mae Dim Cytundeb yn effeithio mwyaf arnynt, yn ogystal â gweithio i liniaru peth o effaith gostwng cyllid UE yn yr ardaloedd hyn. Ynghyd â hyn, mae Llywodraeth y DU hefyd yn cynllunio darparu Cronfa Rhannu Ffyniant y DU, gydag addewidion cyn y refferendwm na fyddai Cymru yn gadael llai o gyllid pe byddai'n pleidleisio i adael.

#### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Pa effaith allai lefel is o gyfanswm gyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru ei gael ar eich cymdeithas tai a'i thenantiaid?
- Sut fydd newidiadau mewn polisi cyllid rhanbarthol yn effeithio ar eich cymdeithas?

### **7. Prinder Tanwydd**

Mae Yellowhammer yn rhybuddio y gallai ymyriad rhanbarthol ar draffig o amgylch Llundain a de ddwyrain Lloegr arwain at brinder tanwydd lleol. Fodd bynnag, mae'n sôn am berygl ymddygiad cwsmeriaid yn arwain at brinderau lleol mewn mannau eraill a dywedodd llawer fod yr adran a gafodd ei cuddio yn nogfennau Yellowhammer yn rhybuddio am gau purfeydd a cholledion swyddi a fedrai gael effeithiau taro-ymlaen pellach ar gyflenwadau

Mae'n debygol y byddai unrhyw brinder tanwydd yn effeithio ar allu cymdeithasau tai, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr i weithredu cerbydau fflyd, yn ogystal â chael sgil-ffeithiau posibl ar allu staff a thenantiaid i deithio i'r gwaith ac apwyntiadau.

#### **Cwestiynau i'w hystyried:**



- Sut fyddai prinder tanwydd yn effeithio ar barhad busnes? Sut fyddai eich busnes yn cyrraedd tenantiaid a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth bregus yn yr angen mwyaf?
- Pa effaith fyddai prinder tanwydd yn ei gael ar argaeledd a symudedd staff, yn arbennig y rhai sy'n gweithio o bell?
- Beth fyddai'r effaith ar wasanaethau cynnal a chadw a gallu contractwyr i ymateb i anghenion busnes?

## **8. Trosglwyddo data**

Mae'n bwysig bod sefydliadau yn ymwybodol o'u trefniadau presennol ar gyfer prosesu data yn dilyn Brexit a gweithredu strategaeth gadarn i gadw cydymffurfiaeth gyda rheoliadau GDPR y Deyrnas Unedig.

Ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, byddai trosglwyddo data gwybodaeth (e.e. gwybodaeth am gyflogeion) yn cael ei gyfrif fel trosglwyddiad 'cyfyngedig' mewn unrhyw achos lle:

- Mae fersiwn y DU o'r GDPR yn weithredol ar gyfer prosesu'r data personol yr ydych yn ei drosglwyddo
- Nid yw GDPR y DU yn weithredol ar fewnforwyr data, fel arfer oherwydd eu bod mewn gwlad tu allan i'r Deyrnas Unedig (a all fod yn yr Undeb Ewropeaidd, yr EEA neu fan arall)
- Mae danfonwyr y data personol a derbynnydd y data yn sefydliadau ar wahân (hyd yn oed os yw'r ddau yn gwmnïau o fewn yr un grŵp).

Gellir gwneud trosglwyddo cyfyngedig pan mae system ddigonol ar diogelu data yn ei lle. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu cydnabod penderfyniadau digonolrwydd yr Undeb Ewropeaidd a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd cyn y dyddiad gadael. Bydd hyn yn galluogi parhau i wneud trosglwyddiadau cyfyngedig i'r rhan fwyaf o sefydliadau, gwledydd, tiriogaethau neu sectorau a ddaw o fewn penderfyniad digonolrwydd yr Undeb Ewropeaidd.

Os nad oes penderfyniad digonolrwydd ar gyfer trosglwyddiad cyfyngedig, efallai y gall y trosglwyddiad ddigwydd yn amodol ar 'fesurau diogelu priodol', a gaiff eu rhestru yn y GDPR.

Mewn sefyllfa dim cytundeb, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na chaiff trosglwyddiadau o'r DU i'r EEA eu cyfyngu pan fydd y DU yn gadael yr UE.



Mae mwy o wybodaeth am y mesurau diogelu a throsglwyddo data ar gael [yma](#).

### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- A oes darparwydd sy'n gweithredu tu allan i'r DU yn dal data personol?
- A fyddai trosglwyddiad data rhwng y DU a'r darparwydd yn cael ei ystyried fel cyfyngedig?
- A oes system ddigonol ar gyfer diogelu data yn ei lle?
- Os na all y trosglwyddiad ddigwydd drwy'r mesurau diogelu priodol, pa fesurau mae'r sefydliad yn eu cymryd i sicrhau mynediad parhaus i ddata hanfodol?

## **9. Cyflenwadau bwyd**

Bu llawer iawn o rybuddion am gyflenwadau bwyd yng nghyswllt Brexit heb gytundeb, gydag unrhyw oedi ar lwybrau masnach allweddol yn debygol o effeithio ar fewnforio bwyd o'r Undeb Ewropeaidd ac ymhellach i ffwrdd. Ymhellach, mae unrhyw dariffau ychwanegol yn debygol o gynyddu pris cyflenwadau bwyd ar gyfer cwsmeriaid masnachol a hefyd ddefnyddwyr bob dydd.

Yn y cyfamser, dywedodd cwmnïau mawr sy'n cyflenwi bwyd i gartrefi gofal ac ysbytai, yn cynnwys Apetito a Bidfood, eu bod yn cadw stoc ychwanegol rhag ofn problemau cadwyn cyflenwi pe na fyddai cytundeb.

Mae dogfen Yellowhammer yn dweud ei bod yn debygol y bydd llai o gyflenwadau bwyd ffres ar gael, ond na fydd hyn yn achosi prinder bwyd yn y DU. Fel canlyniad i hyn, bydd costau yn cynyddu ar gynnyrch y mae prinder ohonynt ac yn cael yr effaith negyddol fwyaf ar y rhai ar incwm isel. Rhybuddiodd Ymddiriedolaeth Trussell y gallai **unrhyw fath** o Brexit gynyddu'r galw ar fanciau bwyd, gan y rhai sydd eisoes yn ei chael yn anodd rhoi bwyd ar y bwrdd yn debygol o wynebu mwy o dlodi.

### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- A yw asiantaethau cymorth lleol, megis banciau bwyd, yn barod am unrhyw gynydd mewn galw gan denantiaid a chleientiaid?



- A yw cartrefi gofal, cyfleusterau gofal ychwanegol ac yn y blaen yn cymryd camau i sicrhau cyflenwadau digonol o fwyd mewn sefyllfa dim cytundeb?

## **10. Cyflenwadau meddygol**

Mae pryderon y bydd tenantiaid bregus, megis yr henoed, rhai gyda salwch cronig neu anableddau neu ffoaduriaid yn fwy mewn risg. Yn gynharach eleni, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU eu bod yn cymryd camau i sicrhau nad oes prinder o gyflenwadau meddyginiaeth ac offer, yn cynnwys pentyrru stoc 6 wythnos ychwanegol (neu fwy ar gyfer rhai cynnyrch, megis brechiadau, insiwlín a chynnyrch gwaed) o feddyginiaeth ac offer i wneud iawn am unrhyw oedi. Maent yn parhau i argymhell nad yw pobl, cartrefi gofal unigol a chyfleusterau gofal eraill yn pentyrru gan y gallai ymyrryd ar gyflenwadau. Dylent gael eu sicrhau *bod* pentwr ar gael ar eu cyfer a pharhau fel arfer.

Gyda 75% o'r meddyginiaethau sy'n dod i'r DU yn croesi Sianel, gallai fod ymyriad o hyd at chwe mis ar gyflenwadau mewn sefyllfa achos gwaethaf cyfradd llif HGV (mor isel â 40% ar Ddiwrnod 1 Dim Cytundeb). Fodd bynnag yn yr achos hwn, ni fydd diwydiannau yn medru cyfateb lefel y pentyrru a ddigwyddodd yn gynharach yn y flwyddyn. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cymryd mesurau arbennig ar hyn o bryd i liniaru'r risgiau hyn fel yr amlinellir yn Yellowhammer.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i gynyddu cydnherthedd yn y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol Cymru drwy gaffael capasiti storio ychwanegol gyda chyflenwad 12 i 15 wythnos o gynnyrch.

### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Sut fydd cartrefi gofal, cyfleusterau gofal ychwanegol a chymorth arall cysylltiedig â iechyd yn liniaru unrhyw brinder mewn cyflenwadau meddygol?

## **11. Ynni**

Mae Yellowhammer yn rhoi sicrwydd y bydd y galw am ynni yn parhau i gael ei ddiwallu ac na fydd unrhyw ymyriad ar ryng-gysylltwyr trydan neu nwy.



Fodd bynnag yn y flwyddyn yn dilyn Brexit, mae cynnydd mawr yn debygol mewn prisiau trydan ar gyfer busnesau a defnyddwyr domestig.

Ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai sy'n ei chael yn anodd ymdopi gyda chyllid personol, mae cynnydd mewn biliau yn debygol o waethygu eu sefyllfa bresennol.

#### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Pa effaith gaiff cynnydd mewn prisiau ynni ar denantiaid a'u gallu i gyflawni ymrwymiadau a biliau eraill?
- Yn yr hirdymor, a oes cwmipas ar gyfer cymryd rhan mewn ynni adnewyddadwy cymunedol i ostwng costau ynni i denantiaid a hefyd ostwng allyriadau carbon?

### **12. Cyflenwadau dŵr**

Mae tebygrwydd isel o fethiant i'r gadwyn cyflenwad cemegol (yn effeithio ar hyd at 100,000 o bobl). Gall fod angen cymryd camau brys os yw hyn yn digwydd i gadw mynediad hanfodol i ddŵr glân. Mae cwmnïau dŵr wedi paratoi'n dda am unrhyw ymyriad gyda monitro helaeth o gadwyni cyflenwad cemegol a stoc sylweddol o gemegau os oes angen.

#### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Sut fydd eich cymdeithas tai yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i unrhyw aelwydydd yr effeithir arnynt?

### **13. Cydlyniant Cymunedol**

Fel gyda'r Deyrnas Unedig gyfan, mae canlyniad y refferendwm wedi rhannu cymunedau yng Nghymru a bleidleisiodd i adael gan 52.5%, gyda mwyafrif yn pleidleisio i adael ym mhob awdurdod lleol heblaw Ceredigion, Gwynedd, Sir Fynwy, Caerdydd a Bro Morgannwg. Gydag adroddiadau am gynnydd mewn troseddau casineb ers Brexit a phryderon pellach am brinder bwyd a meddyginiaeth, mae gwaith cymunedol cymdeithasau tai yn hollbwysig.



Mae Yellowhammer yn awgrymu y gall tensiynau cymunedol gynyddu ymhellach pe byddai Brexit heb gytundeb. Byddai protestiadau hefyd yn mynd â llawer o amser ac adnoddau 'r heddlu.

I wella cydlyniant cymunedol, mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar Brexit heb gytundeb yn amlinellu:

*'Mae timau cydlyniant cymunedol rhanbarthol wedi cael eu hehangu a'u dwyn ynghyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi. Bydd y cynllun Grant Cymunedau Lleiafrifol ar Droseddau Casineb, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau casineb, yn cael ei ddyfarnu ym mis Medi.*

*Mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu'r Ganolfan Genedlaethol ar Adrodd a Chymorth Troseddau Casineb (Cymorth i Ddiodefswyr Cymru) i gefnogi dioddefwyr troseddau casineb.'*

Mater arall o bryder i gymdeithasau tai yw'r tebygrwydd o gynnydd mewn galw am eu gwasanaethau. Er enghraifft, gallai newid sylweddol mewn cyfraddau llog, y nifer mewn cyflogaeth neu gyflogau'n aros yn eu hunfan ymhellach, arwain at grŵp mawr o bobl (yn arbennig y dosbarth canol sy'n berchen eu cartrefi eu hunain nad oeddent yn flaenorol wedi bod â fawr o brofiad o wasanaethau cymorth) yn eu cael eu hunain angen cael mynediad i gymorth ariannol, budd-daliadau neu dai. Gall hyn roi mwy o bwysau ar y systemau sydd yn eu lle ar hyn o bryd.

### **Cwestiynau i'w hystyried:**

- Sut fydd cymdeithasau tai yn ymdopi os oes cynnydd mewn angen yn eu cymuned?
- Pa rôl all cymdeithasau tai ei chwarae i ddod â chymunedau ynghyd ac atal cynnydd mewn achosion o droseddau casineb?